



Antur Waunfawr

Newyddlen

Gorffennaf-Awst 2020

### Pryd ar Glud

Mae Ifan a'r unigolion yn Waunfawr yn parhau i ddarparu prydau bwyd i bobl hyn neu fregus yn y pentref. Yn ddiweddar, cafwyd cerdyn o ddiolch gan Tudur, sy'n byw yn y pentref ac yn derbyn pecyn bwyd.

*Gyfeillion Antur Waunfawr,  
Dim ond Gair o ddiolch am  
y cinio sydd yn landio yma i'r  
drws dri diwrnod yr wythnos,  
ac yn arbennig i'r dyn ifanc  
sy'n coginio a danfon y bwyd!  
Cefnogaeth dda i mi sydd  
dros 70 ac ar 'lockdown'.  
Treat heddiw – Cyw iâr!  
Wow  
Tudur*

Rydym yn falch iawn gallu cynnig y gwasanaeth yma i helpu'r rhai sydd angen. Os ydych chi'n adnabod fwy o bobl sy'n lleol i Waunfawr a fyddai'n elwa o giniawau dyddiol, rhowch wybod i ni.

### Llarpio papur cyfrinachol


Os ydych chi wedi gwrando ar Capital FM yn ddiweddar, efallai eich bod wedi clywed hysbyseb radio newydd Llarpio Antur! Rydym ni dal i ddarparu gwasanaeth llarpio papur cyfrinachol i fusnesau a chartrefi ar draws Gogledd Cymru. Gyda swyddfeydd a busnesau yn dechrau ailagor, rydyn ni nawr yn gweld cynnydd eto yn y galw am ein gwasanaeth. Am wybodaeth ebostiwrch [llarpio@anturwaunfawr.cymru](mailto:llarpio@anturwaunfawr.cymru)



### Byngalo safle Waunfawr

Erbyn hyn mae Antur Waunfawr yn berchen ar y byngalo ar ein safle Waunfawr, ac mae paratodau'n symud 'mlaen er mwyn ei ddefnyddio fel safle ychwanegol dros dro ar gyfer ein gwasanaeth aml-ofynion.

Bydd hyn yn caniatáu i Antur Waunfawr ddilyn gweithdrefnau cadw pellter cymdeithasol a bydd yn ofod diogel ychwanegol i ddarparu gofal o ansawdd uchel i oedolion ag anableddau. Mae'r byngalo pwrpasol yn darparu gofod addasol; ymhlith y nodweddion hygyrch mae ystafell ymolchi addasol gyda chawod 'Smart Shower' a sinc sy'n symud i fyny a lawr, ar gyfer unigolyn mewn cadair olwyn. Mae hefyd cegin addasol gyda sinc ac uned addasol. Mae yna hefyd system SensorFloor sy'n darparu profiad synhwyrdd rhyngweithiol.



Er cof annwyl am Keith Thomas. Brawd a brawd yng nghyfraith gariadus i Susan a Barry a ffrind arbennig i bawb. Cefnogwr brwd tîm pêl-droed Lerpwl. Mae colled fawr ar ei ôl gan ei holl ffrindiau yma yn Antur Waunfawr.



## Prosiect dillad ail-law

Ar hyn o bryd mae'r Warws Werdd ar gau i'r cyhoedd, ond mae cynnydd mawr wedi bod yn y nifer o ddillad a gasglwyd gan fanciau cymunedol yn yr ardal.

Mae'r tîm yn y Warws yn casglu dillad o fanciau o amgylch yr ardal bob dydd, yna rhoddir y dillad o dan gwarantîn am 72 awr fel eu bod yn ddiogel i'w prosesu. Ar hyn o bryd, mae cwmni 'Roberts Recycling' yn casglu'r dillad bob pythefnos. Roedd y casgliad diwethaf yn llenwi 'shipping container' o'r llawr i'r to, ac yn pwysu agos i 8 tunnell - bron i ddwbl ein maint arferol mewn pythefnos!

## Cynnyrch o'r ardd

Mae'r tîm gerddi wedi bod yn brysur iawn yn tyfu a chynaeafu ffrwythau a llysiau i'w defnyddio yn ein tai, gan gynnwys tatws, moron, mefus, nionod, letys a garleg. Yn ddiweddar fe wnaethant godi 22kg o nionod gwyn a 16kg o winwns coch!



## Treialu cynnyrch newydd yn y caffi

Gyda chaffi Blas y Waun ar gau i'r cyhoedd ar hyn o bryd, a llawer o gynnyrch cartref yn dod o'r gerddi, rydyn ni wedi bod yn treialu dipyn o syniadau newydd ar gyfer ein cynnyrch! Mwynhaodd Daniel arbrofi gyda ryseitiau, a'r fefryn hyd yn hyn yw'r cordial cyrens duon cartref.



**ANTUR WAUNFAWR**  
Bryn Pistyll | Waunfawr  
Caernarfon | LL55 4BJ  
[www.anturwaunfawr.cymru](http://www.anturwaunfawr.cymru)  
[swyddfa@anturwaunfawr.cymru](mailto:swyddfa@anturwaunfawr.cymru)  
T: 01286 650721



Mae rhai unigolion wedi bod gartref yn ystod y pandemig; diolch i Dion a'i deulu sydd wedi anfon lluniau o'u gweithgareddau dros yr ychydig fisoedd diwethaf! Mae wedi mwynhau mynd am dro, cael diwrnod sba gartref, bwydo'r ceffylau a phobi cacennau gyda mam!



# Antur Waunfawr Newsletter July-August 2020

## Meals on Wheels

Ifan and the individuals in Waunfawr continue to provide meals for older and vulnerable people in the village. We recently received a thank you card from Tudur, who lives in the village and makes use of our Meals on Wheels service:

*Dear Antur Waunfawr,  
Just a word of thanks for the dinner that arrives at the door three days a week, and especially to the young man who cooks and delivers the food!  
Good support for me in my 70s and in isolation.  
A treat today - chicken!  
Wow  
Tudur*

We are delighted to be able to offer this service to help those who need it. If you know more people who are local to Waunfawr and who would benefit from daily lunches, please spread the word.

## Llarpio Antur Shredding

If you've tuned in to Capital FM recently, you may have heard Llarpio Antur Shredding's new radio advert! We're still providing a vital paper shredding service to businesses and homes all across North Wales. With offices and retail businesses starting to re-open, we're now seeing a steady increase in demand for our service. Contact us on: [llarpio@anturwaunfawr.cymru](mailto:llarpio@anturwaunfawr.cymru) for more details.



## Bungalow at Waunfawr

Antur Waunfawr now owns the bungalow at our Waunfawr site, and preparations are ongoing for the building to be used as a temporary additional site for our multiple needs care service. This will allow Antur Waunfawr to adhere to social distancing procedures and will be an additional safe space to provide high-quality care for adults with disabilities.

The bungalow provides a purpose-built, adaptive space. Features include an adaptive bathroom with smart-shower and adjustable sink, as well as an adaptive kitchen with adjustable sink and unit. There is also a SensorFloor system which provides an interactive sensory game experience.



In memory of Keith Thomas. Loving brother and brother-in-law to Susan and Barry and a special friend to all. An avid supporter of Liverpool football team. He will be greatly missed by all his friends here at Antur Waunfawr.



## Warws Clothes Project

The Warws Werdd is currently closed to the public, but there has been a huge increase in the amount of clothing collected from community banks in the area.


The team at Warws collects clothes from banks around the area every day. The clothes are then placed under quarantine for 72 hours so that they are safe to be processed. Roberts Recycling currently collects the clothes every fortnight, the last collection filled a shipping container from floor to ceiling, and amounted to just under 8 tonnes of clothes - almost double our usual fortnightly quantity!

## Garden produce

The gardens team have been very busy growing and harvesting fruit and vegetables for use in our houses, including potatoes, carrots, strawberries, onions, lettuce and garlic. They recently harvested 22kg of white onions and 16kg of red onions!



**ANTUR WAUNFAWR**  
Bryn Pistyll | Waunfawr  
Caernarfon | LL55 4BJ  
[www.anturwaunfawr.cymru](http://www.anturwaunfawr.cymru)  
[swyddfa@anturwaunfawr.cymru](mailto:swyddfa@anturwaunfawr.cymru)  
T: 01286 650721



## Trialling new produce at Blas y Waun!

With Blas y Waun cafe currently closed to the public, and lots of home-grown produce coming from the gardens, we've been trialling some new produce ideas!

Daniel enjoyed experimenting with the recipes, with the favourite so far being home-made blackcurrant cordial.



Some individuals have been at home during the pandemic; thanks to Dion and his family who have sent in photos of their activities over the past few months! He's enjoyed going for walks, a spa day at home, feeding the horses and making cakes with mum!